**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-03-02(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 23 Ionawr 2002

**Amser:** 9.00am i 12.40pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams (**Cadeirydd**) | Aberhonddu a Sir Faesyfed |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| **Yn bresennol: Swyddogion** | |
| Dr Bernadette Fuge | Is-Adran Ansawdd GIG |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Maria Michael | Dirprwy Brif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Nick Patel | Cyfarwyddwr Prosiect, Adolygiad Dyrannu Adnoddau |
| Richard Tebboth | Dirprwy Brif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Graham Williams | Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Bob Woodward | Drirprwy Brif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yr Athro Peter Townsend | Cadeirydd y Grwp Llywio Cenedlaethol ar yr Adolygiad Dyrannu Adnoddau |
| Dr David Gordon | Pennaeth y Tîm Ymchwil, Adolygiad Dyrannu Adnoddau |
| Yr Athro Syr Michael Rawlins | Cadeirydd, Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol |
| Roy Luff | Cyfarwyddwr Anweithredol, NICE |
| Andrew Dillon | Prif Weithredwr, NICE |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rod Richards a Lynne Neagle. Ni chymerodd unrhyw un eu lle.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad Blynyddol Prif Weithredwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Papur: HSS-03-02(p1)**

Rhoddodd Graham Williams drosolwg byr o'i adroddiad, y rhaglen ddatblygu a'r rhaglen arolygu. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwaith y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd atgyfnerthu'r wybodaeth reoli a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn rhan allweddol o'r broses. Roedd yr Arolygiaeth yn gweithio fwyfwy gydag asiantaethau arolygu ac archwilio eraill. Daeth tair prif thema i'r amlwg yn yr adroddiad:

- y pwysau o ran ariannu gwasanaethau craidd er mwyn galluogi adrannau gwasanaethau cymdeithasol i weithredu arfer da a mynd i'r afael â gwendidau yn y gwasanaethau ar gyfer yr henoed a gwasanaethau cymunedol;
- yr angen i wella'r broses o recriwtio a hyfforddi'r gweithlu; a
- yr angen i atgyfnerthu arweiniad ar lefel wleidyddol, gorfforaethol a chyfarwyddol ac i egluro cyfrifoldebau.

Datganodd Brian Gibbons fuddiant: mae ei wraig yn weithiwr cymdeithasol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'i gydweithwyr yr ymatebion canlynol i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau:

- cydnabuwyd bod yn rhaid rhoi cefnogaeth i 'ddatgelwyr cyfrinachau' ac roedd codau ymarfer yn cael eu datblygu.
- Roedd staff a gawsant eu diswyddo yn ystod cyfnod ymchwilio mewn sefyllfa niwtral. Byddai'r modd y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried eu statws cyflogaeth yn ystod yr amser hwnnw yn cael ei drafod gyda'r Adran honno.
- Ni chasglwyd gwybodaeth am swyddi gwag staff ar lefel Cymru gyfan. Roedd yna broblem wrth symud staff rhwng awdurdodau lleol ac roedd tystiolaeth bod staff yn gadael oherwydd cyfleoedd datblygu gwael.

- Roedd y ffocws ar adnoddau ar gyfer diogelu plant a phlant y gofelir amdanynt yn golygu y gwnaed llai o waith ataliol, a oedd yn dwysáu'r problemau.
- Roedd pryder ynglyn ag ansawdd y data ar asesiadau gofal; roedd awdurdodau lleol yn cyflwyno trothwyon gwahanol ac roedd rhai wedi tynhau eu meini prawf. Roedd yr Arolygiaeth yn ymgynghori ar arweiniad ar gyfer mynediad teg i ofal.
- Roedd y fenter Gwerth Gorau yn dechrau cael effaith ar y broses o gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol.
- Roedd yr Arolygiaeth a'r WLGA yn cydweithio i drafod materion atebolrwydd ac ansawdd a oedd yn deillio o'r broses o ailstrwythuro awdurdodau lleol. Roedd yna ofyniad statudol i gael Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Roedd cyflalwniadau addysgol plant y gofelir amdanynt yn cael eu monitro ac roedd gan bob plentyn gynllun.

Cyfeiriodd y Gweinidog at y trefniadau polisi newydd a oedd yn ffurfio rhan o'r setliad grant cynnal refeniw. Roedd yna 10 dangosydd gan y gwasanaethau cymdeithasol a fyddai'n sicrhau canlyniadau o ansawdd. Yn ychwanegol at y grant cynnal refeniw, roedd awdurdodau lleol yn derbyn nawdd sylweddol o dan grantiau arbennig a oedd wedi'u neilltuo'n benodol. Roedd y rhain yn ategu llawer o'r projectau partneriaeth a gynhaliwyd gyda'r sector gwirfoddol. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwybodaeth rheoli dda. Dywedodd fod yn rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ymateb yn aml i argyfyngau ac nad oedd ymgymryd â gwaith ataliol a oedd yn gofyn am gydweithrediad ag adrannau ac asiantaethau eraill yn flaenoriaeth iddynt.

**Datganiad ar Ad-dalu Benthyciadau gan Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau a roddwyd cyn 1 Mawrth 2001 gan y Cynulliad Cenedlaethol**

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad, ac mae'r testun hwn yn Atodiad 1.

Mynegodd rai aelodau bryder bod dyledion rhai yn cael eu talu ar draul yr awdurdodau a'r ymddiriedolaethau hynny a oedd wedi rheoli eu hunain yn ddoethach. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor mai mater technegol oedd ildio hawl i ad-dalu ac nad oedd yn golygu bod unrhyw arian yn cael ei dynnu o gyllidebau awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau. Dywedodd Cyfarwyddwr y GIG y byddai'n rhaid i awdurdodau ac ymddiriedolaethau weithredu o fewn eu cyllidebau am y ddwy flynedd nesaf cyn y byddai'r ddyled wedi'i had-dalu'n llwyr.

**Eitem 3: Adolygiad Dyrannu Adnoddau**
**Papur HSS-03-02(p2)**

Rhoddodd yr Athro Townsend y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed ers iddo gyflwyno ei adroddiad cychwynnol ym mis Gorffennaf. Ymgynghorwyd yn helaeth ar hyn a bu'r ymatebion yn ffafriol ar y cyfan. Roedd rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon ynglyn â manylion ac amseriad yr ymagwedd newydd o fesur angen iechyd yn uniongyrchol yn y fformiwla ddyrannu. Roedd y Grwp Llywio Cenedlaethol wedi ystyried y pryderon hyn yn ei adroddiad a newidiodd, a

ychwanegodd at neu a gadarnhaodd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol. Y casgliad cyffredinol oedd bod angen gwneud mwy na diwygio'r fformiwla ddyrannu. Argymhellodd yr adroddiad dair strategaeth gyfochrog, a drafodwyd wedi hynny gan y Pwyllgor.

**Y Strategaeth Ddeuol**

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhaid gweithredu i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi, ac nid ym maes iechyd yn unig. Gallai asesiadau effaith, er enghraifft ar brydau ysgol am ddim, sefydlu beth oedd yn cael ei wneud a beth fyddai angen ei wneud mewn meysydd eraill.

Cefnogodd yr Aelodau yr argymhelliad ar gyfer strategaeth ddeuol.

**Gwybodaeth Ariannol Ddibynadwy**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n bwysig cael gwybodaeth ariannol ddibynadwy er mwyn gallu olrhain costau a gwariant ar lefel côd post.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y GIG ddatganiad yr Athro Townsend sef bod disgwyl i'r gwaith a oedd yn cael ei gyflwyno ar sail beilot gynhyrchu gwybodaeth waelodlin ddibynadwy. Byddai hyn ar gael ym mis Mehefin. Gallai ddatrys rhai o'r pryderon ynghylch cyflwyno'r fformiwla newydd.

Rhybuddiodd yr Athro Townsend y byddai'r wybodaeth ond yn cyrraedd lefel Bwrdd Iechyd Lleol i ddechrau, ond y dylai fod yn bosibl datblygu hynny ymhen amser.

**Fformwla Ddyrannu Newydd**

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol mewn ateb i gwestiynau a phryderon yr aelodau:

- Dywedodd yr Athro Townsend y byddai'r wybodaeth waelodlin a fyddai ar gael yn yr haf yn galluogi'r Gweinidog i lunio barn am gyflwyno'r fformiwla newydd yn raddol.
- Dywedodd Dr Gordon fod y tîm ymchwil wedi derbyn y cyfrifoldeb o gynhyrchu dull sy'n wyddonol gadarn ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw reswm technegol pam na ddylai Arolwg Iechyd Cymru gwmpasu plant.
- Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol fod yna weithgor yn arolygu cynnwys yr arolwg.
- Dywedodd yr Athro Townsend y byddai cyflymder y broses o gyflwyno'r fformiwla newydd yn dibynnu ar gynnydd yn lefel gyffredinol yr adnoddau a fyddai ar gael i'w dosbarthu. Roedd angen archwilio lefel y cyllidebau iechyd eraill, fel costau fferyllol cynyddol.

Dywedodd David Melding na allai'r grwp Ceidwadol gefnogi cyflwyniad y fformiwla newydd hyd nes y byddai mwy o wybodaeth ar gael ar ei heffaith a dywedodd na ddylai gael ei chyflwyno tan 2005, er mwyn dod i arfer â strwythur newydd y GIG. Yn y cyfamser, dylid cynyddu'r gronfa

Anghydraddoldebau Iechyd er mwyn osgoi gwahaniaethau pellach.

Cefnogodd yr aelodau eraill y nod o gyflwyno'r fformiwla newydd yn gynnar.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yr Athro Townsend wedi cytuno i gadeirio'r Grwp Llywio a fyddai'n cael ei sefydlu i oruchwylio'r broses o ddatblygu'r fformiwla ddyrannu ac i sicrhau y gwneir cynnydd ar waith sydd dros ben.

**Gweithredu:** byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i gadarnhau casgliadau'r Pwyllgor.

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)**
**Papur HSS-03-02(p3)**

Rhoddodd yr Athro Syr Michael Rawlins, Roy Luff ac Andrew Dillon gyflwyniad ar waith NICE hyd yma. Ceir copi o'r cyflwyniad a'r memorandwm ategol yn Atodiad 2.

Dywedodd Syr Michael fod yna dystiolaeth o wahanol rannau o'r byd bod gwasanaethau iechyd yn cael anhawster i ymdopi â'r tensiynau rhwng galw ac adnoddau. Roedd Llywodreathau yn y DU yn trafod materion adnoddau cyfyngedig a gwerth am arian yn agored. Gwnaeth Syr Michael a'i gydweithwyr y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth ag aelodau:

- Yr oedd NICE wedi mabwysiadu'r mesur ansawdd blynyddoedd bywyd a newidir fel y ffordd fwyaf gwrthrychol o asesu cost budd ymyriadau. Cydnabuwyd nad oedd yna un mesur perffaith ar gyfer asesu sut yr oedd ymyriad yn ychwanegu ansawdd at fywyd unigolion ac y byddai angen barnu gwerth rhywbryd yn y broses. Nid oedd yn hawdd chwaith i aelod unigol o'r cyhoedd dderbyn bod un cyffur yn fwy gwerthfawr nac un arall gan ddefnyddio'r mesur hwnnw; yn naturiol, roedd y claf yn edrych ar y budd posibl iddynt hwy a'u salwch neu eu hanabledd penodol hwy. Roedd NICE wedi comisiynu gwaith pellach ar fframwaith cyffredinol y byddai'r pwyllgor Gwerthuso yn gweithio o'i fewn.
- Nid oedd yn bosibl gosod unrhyw uchafswm ar y gwerth y gellid ei gysylltu ag ansawdd blynyddoedd bywyd a newidir, er gwaethaf y ddamcaniaeth y gallai fod yn £30,000.
- Roedd asesiadau o rai ymyriadau wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, o ganlyniad i natur agored a thryloyw'r systemau a ddefnyddiwyd gan NICE. Roedd Beta interferon yn un o'r achosion hyn. Dychwelwyd y penderfyniad i'r Pwyllgor Gwerthuso i'w ystyried ymhellach ar sail apêl. Am fod cymaint o'r canlyniadau'n dibynnu ar gost effeithiolrwydd yr achos penodol hwn, comisiynwyd gwaith pellach ar fodel economaidd ac roedd NICE yn disgwyl y byddent yn cyhoeddi penderfyniad terfynol maes o law. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod gyda'r Adran Iechyd y cynllun ar gyfer rhannu risg gyda gweithgynhyrchwyr ar gyfer beta interferon a glatarimer acetate.
- Roedd NICE wedi edrych ar 12 cyffur o fewn dwy flynedd iddynt gael eu trwyddedu, ac yr oedd dau neu dri o'r rhain wedi cyrraedd y cam trwyddedu.
- Roedd yr holl ganolfannau cydweithredu yn Llundain ar hyn o bryd ond roedd canolfannau eraill

ar y gweill ac roedd NICE yn archwilio’r posibilrwydd o ddatblygu canolfan sy’n cwmpasu canser yng Nghymru.

Byddai’r Gweinidog yn gwneud cyfeiriadau statudol i orfodi cyhoeddiad arweiniad NICE a byddai hynny’n cael ei fonitro drwy’r fframwaith rheoli perfformiad. Roedd £10.5m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau iechyd o 2002-2003 i’w helpu gyda chostau datblygu, yn cynnwys cyhoeddi arweiniad NICE.

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am sicrhau y byddai Cymru’n cael ei chynrychioli ar y Cyngor Dinasyddion ac ar holl Bwyllgorau a Chynghorau eraill NICE.

Cytunwyd y dylai’r Pwyllgor gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda NICE.

**Eitem 5 Cofnodion**
**Papur HSS-01-02(min)**

Cytunwyd ar Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr.

**<u>Papurau i’w Nodi</u>**

Nodwyd y papurau canlynol:

**HSS-03-02(p4)**

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Blaen-raglen Waith Strategol mis Ionawr 2002 i fis Mai 2003**

**Gweithredu:** Blaen-raglen Waith Strategol i’w hanfon i bwyllgorau pwnc eraill er mwyn cael sylwadau arni.